

Goruchwylio a hybu safonau'r iaith Gymraeg

Mae ein Cynllun Gweithredu yn datgan y byddwn yn gwneud y canlynol:

“...sichrau bod gennym weithdrefnau ar gyfer goruchwylio'r ffordd rydym yn cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisiau a gweithredol y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, ac ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r gwasanaethau hynny. Byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen ar ein gwefan.”

Goruchwylio

- Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i gymeradwyo gan ein Tîm Rheoli a'n Cyngor.
- Rydym yn monitro gweithgareddau a chydymffurfiaeth yn erbyn ein Cynllun Gweithredu bob blwyddyn, ac yn cynnwys y canlyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gymeradwyo gan ein Tîm Rheoli a'n Cyngor cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- Mae ein swyddogaeth Archwilio Mewnol yn ystyried a oes angen rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Prif Weithredwr o ran y risgiau cysylltiedig â methu cydymffurfio yn erbyn y safonau.

Hybu

- Mae gennym dudalen ar ein gwefan yn benodol ar gyfer sut rydym yn gweithio'n ddwyieithog, ac mae'n cynnwys ein Cynllun Gweithredu.
- Hefyd rydym yn hybu ein cyfrifoldebau am safonau'r Gymraeg ar ein tudalen gyffredinol am safonau gwasanaeth.
- Rydym yn defnyddio ein tudalennau newyddion a'n presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i bartïon sydd â diddordeb am ein dyletswyddau yng nghyswllt y Gymraeg.
- Anogir pawb sy'n cysylltu â CCAUC i wneud hynny yn y Gymraeg neu yn Saesneg.
- Mae croeso i ymgeiswyr am swyddi gyflwyno eu ceisiadau yn y Gymraeg neu yn Saesneg.
- Mae croeso i bawb sy'n dod i gyfarfodydd cyhoeddus, a chyfarfodydd sy'n dod o dan y safonau gwasanaeth, gyfrannu at y cyfarfodydd yn y Gymraeg neu yn Saesneg.
- Pan mae dogfen ar gael yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg, rydym yn nodi hyn yn glir ar y fersiwn Saesneg (ac i'r gwrthwyneb).
- Mae'r tîm rheoli'n hybu ethos o fod yn bositif yng nghyswllt CCAUC fel sefydliad a gweithle dwyieithog.
- Mae staff yn ymwybodol o gyfrifoldebau CCAUC yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a pha wasanaethau sydd ar gael iddynt yn y Gymraeg.
- Mae staff yn ymwybodol eu bod yn gallu cael cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y Gymraeg.
- Mae staff yn gweld y ddwy iaith ochr yn ochr os yw hynny'n bosib er mwyn rhoi lle blaenllaw i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i wella mynediad i'r Gymraeg i'r staff i gyd, a'u dealltwriaeth ohoni.
- Atgoffir staff o'n dyletswyddau ni fel sefydliad ac maent yn cael diweddariad blynyddol ar gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- Rydym yn sicrhau bod y staff ac ymatebwyr i ymgynghoriadau'n cael eu hannog i ystyried effaith polisiau ar yr iaith Gymraeg.